


Llan-non



Cynllun Lluio Lleoedd

Gallwch weld y cynllun hwn ar

<https://placemaking-ceredigion.wales/cy/>

Ile gallwch ddysgu am eich cymuned, darllen straeon, gwyllo ffilimau byr a gwrando ar bobl leol yn siarad am yr hyn mae eu pentref yn ei olygu iddyn nhw heddiw, eu hatgofion o'r gorffennol a'u gobeithion am y dyfodol.



Diben

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi pwyslais cryf ar gydweithio â'i gymunedau a'i lleodd.

Ar ôl datblygu Cynlluniau Lle ar gyfer rhai o brif drefi'r sir rai blynyddoedd yn ôl, mae'n canolbwyntio bellach ar helpu cymunedau gwledig, llai.

Y tair cymuned ar ddeg yw:

Aberporth/Parclyn, Bow Street, Cenarth,
Felinfach/Ystrad Aeron, Llanarth, Llanilar, Llan-non,
Llanrhystud, Penrhyncoch, Pontarfynach,
Pontrhydfendigaid, Talybont, Y Borth

Mae'r Prosiect Llundio Lleodd wedi helpu cymunedau i ddeall eu hanghenion, llunio gweledigaeth a chanfod blaenoriaethau, a manylir ar hyn yng [ngwefan](#) dogfen y cynllun Llundio Lleodd unigryw hwn.

Hon yw dogfen y cynllun Llundio Lleodd.

Mae'r cynllun wedi cael ei lunio trwy ddeall eich cymuned a chreu portread bro a thrwy gyfres o weithgareddau ymgynghori wyneb yn wyneb a digidol.

Gweithgarwch allweddol

Portread Bro

Mae hwn wedi creu adnodd lle gall trigolion a grwpiau lleol ganfod ffeithiau a ffigurau allweddol am eu cymuned megis poblogaeth, tai, iechyd, gweithgarwch economaidd a mwy. Mae'n ein galluogi i ddeall pa siopau a chyfleusterau lleol sydd i'w cael yn eich pentref a sut mae pobl yn symud o gwmpas.

Stori eich Cymuned

Fel rhan o'r prosiect, cynigiwyd cyfres o gyfleoedd i'r cymunedau roi eu barn ar anghenion eu pentrefi a syniadau ar eu cyfer. Roedd cymysgedd o sesiynau cymunedol wyneb yn wyneb ac ymgynghori digidol yn sicrhau bod cymaint â phosibl o aelodau'r gymuned yn cael cyfle i gymryd rhan.

Wyneb yn Wyneb

Trefnwyd sesiwn alw-heibio gymunedol ym mhob un o'r 13 ardal cyngor cymuned, mewn partneriaeth â chynghorwyr lleol a lleoliadau cymunedol. Roedd pob sesiwn yn parhau am tua saith awr ac wedi ei chynllunio fel digwyddiad anffurfiol agored i bawb lle gallai trigolion ddod draw unrhyw adeg o'r dydd i rannu eu barn trwy amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol. Cafodd y digwyddiadau hyn eu hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, poster

printiedig a rhwydweithiau e-bost. Roedd fformat y digwyddiad yn cynnwys:

- Cyflwyniad byr i'r fenter Lluio Lleoedd, yn esbonio ei diben, amcanion, etc.
- Cyfranogwyr yn cael eu gwahodd i asesu pa mor dda mae eu pentref yn ei wneud mewn meysydd fel trafniadaeth, cyfleusterau etc, gan ddefnyddio partrwm graddio syml.
- Gosod pinnau ar fap mawr o'r pentref i ddangos pryderon allweddol a syniadau'n ymwneud â lleoliadau, adeiladau a llecynnau allweddol.
- Trafodaethau agored i annog mynychwyr i rannu syniadau, pryderon a dyheadau ychwanegol, y tu hwnt i weithgareddau eraill.
- Cyd-drafod â'r tri artist a'u cyfryngau creadigol i drafod y pentref a'i ymdeimlad o le.

Digidol

Rhoddodd y prosiect ffyrdd digidol hefyd i bobl gyflwyno sylwadau, gan ddarparu offeryn mapio ar-lein, arolwg, a'r dewis i anfon sylwadau trwy e-bost.

Daethpwyd â'r holl sylwadau hyn at ei gilydd mewn adroddiad o'r ymgynghoriad.

Gweledigaeth a Syniadau'r Gymuned

Yn dilyn dadansoddi data a ffigurau, cyfarfod trigolion a grwpiau lleol mewn sesiynau galw heibio yn y pentrefi a darllen sylwadau digidol pobl, roedd y sgysiau cymunedol yn helpu'r prosiect i gyrraedd y dasg o awgrymu syniadau ar gyfer pob pentref.

Cafodd y syniadau hyn eu rhannu'n ddigidol gyda'r gymuned leol trwy rannu map syniadau rhyngweithiol a oedd yn ceisio barn ar syniadau a oedd yn gysylltiedig â lleoliadau penodol. Gofynnwyd hefyd i bobl a grwpiau lleol am syniadau nad oedd yn gysylltiedig â lleoliadau penodol, ee gwella band eang digidol, yn ogystal â rhoi cyfle i bobl wneud sylwadau cyffredinol ar y prosiect hwn.

Mae'r holl sylwadau lleol o'r sesiynau galw-heibio cymunedol a'r mapiau syniadau a'r arolwg digidol wedi helpu'r cynllun hwn ar gyfer eich cymuned. Diolch i'r rheini sydd wedi helpu i lunio'r cynllun hwn.

Os oes arnoch eisiau gweld proffil eich ardal leol, stori eich cymuned, gan gynnwys gwaith y tri artist ar ymdeimlad eich pentref o le, ewch i:



<https://placemaking-ceredigion.wales/cy/>

Detholiad o Mowing Lawns, Lawn Atgofion gan Hattie Morrison 2026

*"If we signpost everything there is here, there wouldn't be anywhere to hold the people who visit. We're a little secret of a village, a little secret pathway in the garden that is the Ceredigion Coastline. But these little secrets need to stay alive somehow. How do you keep little secrets alive? I ask him.
By telling them and telling people how and where to find them, he replies.
By giving them signs. "¹*

¹ Detholiad o *Mowing Lawns, Lawn Atgofion* gan Hattie Morrison 2026. I ddarllen neu wrando ar fonolog llawn Hattie Morrison am Llan-non, [cliciwch yma](#)

Gweledigaeth


Mae Llan-non yn dathlu ac arddangos ei straeon, tirwedd, treftadaeth ac atyniadau cyfoethog, gan gynnal ei hunaniaeth a'i ymdeimlad o le. Mae wedi cryfhau ei gyfleusterau cymunedol i gefnogi bywydau llesol ar draws pob oedran, gyda mwy o leoedd ar gyfer chwaraeon, diwylliant a chyfarfodydd cymdeithasol yn helpu i ddod â'r gymuned at ei gilydd. Mae gwell symudiad a diogelwch ar hyd yr A487 wedi adfer canol y pentref fel lle saffach a mwy dymunol i bobl.



2

² Gwaith celf a grewyd gan Meinir Mathias ac aelodau o'r gymuned leol yn ystod sesiwn galw-heibio cymunedol Llan-non, Tachwedd 2025

Blaenoriaethau a Themâu





Dyheadau

Thema	Rhif Dyhead	Teitl a Disgrifiad	Math o Brosiect	Sefydliad Allweddol	Amserlen		
					Byr	Canolig	Hir
Cyfleusterau Cymunedol	4.	Datblygu'r cyrtiau tennis, oddi ar Stryd-yr-Ysgol, yn lle chwaraeon aml-ddefnydd ar gyfer yr holl gymuned.	Gweithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Llansantffraed			
	6.	Cefnogi neuadd y pentref fel canolfan. Uwchraddio'r neuadd a buddsoddi ynddi er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi amrywiaeth helaeth o weithgareddau, boed yn grwpiau diddordebau bach neu'n ddigwyddiadau cymunedol mawr. Mae eitemau'n cynnwys gwresogi, llwyfan a gwelliannau eraill. Mae'n gysylltiedig â'r thema hyrwyddo'r gymuned.	Gweithiau cyfalaf	Neuadd Bentref Llan-non ac Ymddiriedolaeth y Cae Chwarae			
	9.	Buddsoddi yn y clwb pêl-droed ac mewn offer chwarae i blant hŷn yn lle chwarae Maes Albion. Darparu gwell ystafelloedd newid, tŷ clwb a chyfleusterau storio.	Gweithiau cyfalaf	Clwb Pêl-droed Llan-non Neuadd Bentref Llan-non ac Ymddiriedolaeth y Cae Chwarae			

	12.	Archwilio darpariaeth i ieuenctid, dan do ac yn yr awyr agored a defnyddio asessau presennol fel neuadd y pentref. Datblygu rhaglen o weithgarwch sy'n canolbwyntio ar fentergarwch pobl ifanc, diwylliant a'r amgylchedd.	Cyllid datblygu	Cyngor Cymuned Llansantffraed / Cyngor Sir Ceredigion			
	13.	Archwilio dichonoldeb cael lle ychwanegol i randiroedd yn y pentref o ran galw, tir sydd ar gael a sut y gall cynnyrch gefnogi llesiant trigolion lleol.	Astudiaeth ddichonoldeb Cyfuno tir a gweithiau cyfalaf (mynediad a storio)	Cyngor Cymuned Llansantffraed			
Symud a Thrafnidiaeth	1.	Gwella pyrth i'r pentref ar yr A487. Cyhoeddi hunaniaeth hanesyddol Llan-non gydag arwyddion unigryw sy'n cysylltu ag arwyddion cyfeirio eraill at adnoddau ac atyniadau lleol. Hyn i ddigwydd law yn llaw â gostwng y terfyn cyflymder o 40 i 20mya, defnydd posibl o arwydd LED i ddangos cyflymder.	Gweithiau cyfalaf	Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru Llywodraeth Cymru / Cyngor Sir Ceredigion / Cyngor Cymuned Llansantffraed			
	2.	Rheoli parcio ar y stryd. Ystyried darpariaeth parcio oddi ar y stryd i	Astudiaeth Ddichonoldeb	Asiantaeth Cefnffyrdd			

		drigolion, ond hefyd cynnal parcio tymor byr i siopau a gwasanaethau lleol a fydd yn cefnogi gwelliannau i'r stryd.	Gweithiau cyfalaf	Canolbarth Cymru Llywodraeth Cymru / Cyngor Sir Ceredigion / Cyngor Cymuned Llansantffraed			
Symud a Thrafnidiaeth	5.	Gwella cyfle i groesi i galon y pentref. Dylai canol y pentref fod lle mae'r A487 yn cyfarfod Heol-Y-Dŵr a Stryd-Yr-Ysgol, gan fod y swyddfa bost, siop gyfleustra, siop pysgod a sglodion, tafarn a'r ysgol gynradd gerllaw. Mae'r A487 yn torri drwodd yma gyda cheir yn cymryd blaenoriaeth dros gerddwyr. Mae angen archwilio ffyrdd o greu lle mwy dymunol i bobl, gan gynnal traffig drwodd a pharcio wrth alw heibio.	Astudiaeth ddichonoldeb	Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru Llywodraeth Cymru / Cyngor Sir Ceredigion / Cyngor Cymuned Llansantffraed			

Thema	Rhif Dyhead	Teitl a Disgrifiad	Math o Brosiect	Sefydliad Allweddol	Amserlen		
					Byr	Canolig	Hir
Symud a Thrafnidiaeth	7.	Gwella wyneb y ffordd ar Lôn yr Eglwys sy'n cysylltu â Llansanffraed.	Gweithiau cynnal a chadw ffyrdd	Ceredigion County Council			
	10.	Ailwynebu hawliau tramwy, yn bennaf o Stryd-Y-Capel i gae chwarae Maes Albion oherwydd y defnydd ar y cyd â cherbydau.	Mân weithiau (yn dibynnu ar berchnogaeth tir)	Cyngor Cymuned Llansantffraed			



Thema	Rhif Dyhead	Teitl a Disgrifiad	Math o Brosiect	Sefydliad Allweddol	Amserlen		
					Byr	Canolig	Hir
Yr Amgylchedd Lleol	3.	Gwella'r llecyn ger y safle bws ar yr A487. Cyfle i greu llecyn gwyrdd piced gyda seddau sy'n cefnogi gwelliannau stryd i'r gefnffordd.	Cymunedol / amser gwirfoddoli Mân weithiau cyfalaf	Cyngor Cymuned Llansantffraed			
	11.	Rheoli ardal maes parcio'r traeth. Clirio gweddillion stormydd o'r maes parcio a rheoli parcio dros nos.	Rheoli / cynnal a chadw	Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Sir Ceredigion			
	14.	Diogelu Llwybr Arfordir Cymru rhag erydiad arfordirol.	Rheoli / cynnal a chadw	Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Sir Ceredigion			
	15.	Rheoli dŵr ffo i lawr Stryd-Yr-Ysgol trwy ystyried nodweddion gwanhau dŵr ffo, gwrychoedd, lleiniau byffer a gerddi dŵr glaw.	Astudiaeth ddichonoldeb Gweithiau lliniaru	Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Sir Ceredigion			
	16.	Asesu goleuadau a defnydd tariannau i gydymffurfio â safonau awyr dywyll.	Astudiaeth ddichonoldeb Gweithiau cynnal a chadw / uwchraddio	Cyngor Sir Ceredigion			
	17.	Diogelu cymeriad hanesyddol y pentref ee Y Lleiniau, rhag	Dan arweiniad y Cynllun Datblygu	Cyngor Sir Ceredigion			

		gorddatblygu. Arfarniad ardal gadwraeth i gadarnhau gwerth y nodweddion canoloesol hyn a nodweddion ac adeiladau sensitif eraill.					
Treftadaeth Leol	8.	Gwella dehongli treftadaeth leol fel ei fod ar gael yn ffisegol a digidol, i roi gwybodaeth am gapeli anghydfurfiol y pentref, yr ysgol, a'r ffaith ei fod mewn dyddiau a fu yn gartref i bum tafarn a bragdy, tair efail gof, cryddion, seiri olwynion a becws. Mae lleoedd hanesyddol eraill yn cynnwys Bwthyn Llan-non o'r 18 ^{fed} ganrif, y pyllau pysgota hynafol ac eglwys Llansanffraed. Mae cyfleoedd hefyd i gysylltu â llwybr Dylan Thomas.	Astudiaeth ddichonoldeb Cyllid refeniw	Cyngor Cymuned Llansanffraed Cymdeithas Hanes Llan-non			

Thema	Rhif Dyhead	Teitl a Disgrifiad	Math o Brosiect	Sefydliad Allweddol	Amserlen		
					Byr	Canolig	Hir
Hyrwyddo'r Gymuned	18.	Datblygu digwyddiad cymunedol sy'n dod â phobl at ei gilydd. Gallai'r digwyddiad hefyd gysylltu amryw grwpiau a sefydliadau cymunedol â'i gilydd wrth gynllunio'r gweithgarwch ee y neuadd, yr ysgol gynradd, capeli, yr eglwys, y clwb pêl-droed.	Cymunedol / amser gwirfoddoli Cyllid refeniw	Cyngor Cymuned Llansantffraed Grwpiau a thrigolion lleol			
	19.	Datblygu gwefan gymunedol sy'n dathlu bywyd yn Llan-non, rôl y cyngor cymuned, dangos beth sydd ymlaen, a gwybodaeth leol arall.	Cyllid refeniw	Cyngor Cymuned Llansantffraed			

